# CYNGOR CYMUNED Y GANLLWYD

## RHEOLAU SEFYDLOG

Cwblhawyd Y Rheolau Sefydlog a ganlyn fel canllawiau i'w dilyn er sicrhau fod trefn a rheolaeth ar gyfarfodydd y Cyngor. Pwysleisir fod Y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cynghorwyr yng nghyfarfod y Cyngor Tachwedd 12fed 2008 i'w gynnal drwy bob cyfarfod.

1. **CADEIRYDD.** Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw llywio'r Cyfarfod yn ddiduedd a chadw at y canllawiau a roddir yn y ddogfen "Rheolau Sefydlog a Chadeiryddiaeth" a gyflwynwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol
2. **CORWM O'R CYNGOR.** Mae'n angenrheidiol i dri aelod o'r Cyngor fod yn bresennol cyn cael cynnal cyfarfod.
   Os digwydd i un o'r tri cynghorwr yn bresennol orfod gadael e.e. dangos diddordeb yn y mater dan sylw, rhaid gohirio'r cyfarfod.
3. **DANGOS DIDDORDEB.** Ar gychwyn cyfarfod mae'n rhaid i Gynghorwr hysbysu'r Cyngor os oes ganddo/ganddi ddiddordeb mewn mater wedi ei restru ar yr Agenda. Os yw'n angenrheidiol rhaid i'r Cynghorwr neilltuo o'r ystafell yn ystod y drafodaeth ar y mater y mae ganddo/ganddi ddiddordeb ynddo. Cedwir cofnod o ddiddordebau Cynghorwyr gan y Clerc.
4. **CYFARFOD BLYNYDDOL.** Yn ystod blwyddyn etholiad cynhelir y Cyfarfod Blynyddol o fewn pedwar diwrnod a'r ddeg (14) o ddyddiad yr etholiad.
   Pan nad yw'n flwyddyn etholiad cynhelir y Cyfarfod Blynyddol yn ystod mis Mai - sef yr ail ddydd Mercher o'r mis.
   Derbynnir y ffurflen "Datganiad Derbyn Swydd" a gwblheir gan gynghorwyr yn y Cyfarfod Blynyddol gan y Clerc. (h.y. blwyddyn etholiad)
   Yn yr un modd swydd y Clerc yw derbyn y ffurflen cofrestru gan gynhorwyr a gaiff eu cyf-ethol i'r Cyngor.
   Cyflwynir copi o'r Rheolau Sefydlog a'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr wedi iddynt lofnodi'r ddogfen "Datganiad Derbyn Swydd" os nad ydynt wedi bod yn gynghorwyr yn flaenorol.
   Cyn cychwyn y cyfarfod rhaid dewis Cadeirydd ac Is-Gadeirydd am y flwyddyn ganlynol. Hefyd dewisir cynrychiolwyr ar y gwahanol bwyllgorau.
5. **PLEIDLEISIO.**

* Wedi trafodaeth ar y mater dan sylw mae'r Cadeirydd yn crynhoi yr hyn a drafodwyd ac yn gofyn i'r Cynghorwyr bleidleisio.

* Y drefn arferol yw fod aelodau yn pleidleisio drwy godi llaw onibai fod dau aelod neu fwy yn gwneud cais am bleidlais gudd.

* Os oes aelod o'r Cyngor yn dymuno cofnodi ym mha fodd y pleidleisiodd yr aelodau ar y mater dan sylw mae'n ofynnol i'r Clerc wneud cofnod pa un ai tros neu yn erbyn y pleidleisiodd bob aelod.

* Mae hawl gan y Cadeirydd i bleidleisio ar unrhyw fater a ddaw ger bron y Cyngor. Os yw'r bleidlais yn gyfartal mae'r hawl ganddo/ganddi i bleidleisio drachefn (Llais y Cadeirydd) er sicrhau canlyniad.

6. **TREFN PWYLLGOR**

* Os nad yw'r Cadeirydd na'r Is-Gadeirydd yn bresennol yn y cyfarfod rhaid ethol Cadeirydd am y noson.

* Gofynnir i'r aelodau gadarnhau fel rhai cywir, neu dynnu sylw at unrhyw

gamgymeriad yn y cofnodion o'r pwyllgor blaenorol. (Dosberthir y cofnodion o fewn deg niwrnod i bwyllgor gael ei gynnal).Os ydynt yn cael eu dyfarnu yn rhai cywir yna fe'i llofnodir gan y Cadeirydd. Os nad ydynt yn cael eu dyfarnu'n gywir rhaid eu cywiro, pleidleisio ar y gwelliant ac yna gofynnir i'r Cadeirydd lofnodi'r gwelliant a'r cofnodion. Rhaid cynnwys y cywiriad yng nghofnodion y pwyllgor sy'n cael ei gynnal.

* Ni chaniateir trafodaeth ar gynnwys y cofnodion h.y ni chaniateir trafodaeth ar unrhyw fater a fu ger bron y pwyllgor blaenorol.
* Dangos Diddordeb - Gweler uchod (3).
* Cofnodi ymddiheuriadau. Os nad yw cynghorwr yn presennoli ei hun am chwech cyfarfod yn olynnol mae'n di-aelodi ei hun o fod yn gyngorwr.
* Pynciau i'w trafod.
* Adroddiad y Cynghorydd Sir.
* Llythyrau a dderbynniwyd ac adroddiadau o is-bwyllgorau.
* Awdurdodi talu anfoneb. Ceir llofnod y ddau gynghorwr a etholwyd ar siec a gofynnir iddynt roi llythrennau cyntaf eu henwau ar y gwrthddalen. (Gweler Asesiad Risg Ariannol y Cyngor)
* Asesiad Risg ar eiddo'r Cyngor - Adroddiad ar unrhyw ddiffyg ar eiddo'r Cyngor.
* Ceisiadau Cynllunio
* Datganiad misol y banc. Cysoni'r y banc bob cwarter blwyddyn (Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr. (Gweler Asesiad Risg Ariannol y Cyngor)
* Unrhyw fater a ofynnwyd gan y Cynghorwyr i'w gynnwys ar yr Agenda. Rhaid hysbysu'r Clerc o'r materion yma wythnos ymlaen llaw.
* Yng nghyfarfod mis Ionawr rhaid trafod y Praesept am y flwyddyn ariannol ganlynol.

  Wrth osod y Praesept rhaid cymeryd y canlynnol i ystyriaeth:-

a. Yswiriant digonol.
b. Cynllun gwariant ar welliannau/projectau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.
c. Tâl Aelodaeth Bwrdd Rheoli e.e. Un Llais Cymru.
d. Costau chwyddiant.
dd. Cyfraniad at Elusennau gan gadw at Reol 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
e. Cyflog y Clerc.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

Gan fod angen barn y Cyngor o fewn un diwrnod ac ugain (21) ar Geisiadau Cynllunio rhaid galw pwyllgor brys os nad oes cyfarfod o'r Cyngor llawn o fewn amser penodedig. Rhaid i'r Cadeirydd a dau gynghorydd arall fod yn bresennol yng nghŷd a'r Clerc.

Fel na fydd y cyfarfod yn gorfod cael ei ohirio mae'n angenrheidiol i'r Clerc sicrhau ymlaen llaw nad oes gan yr un o'r Cynghorwyr "Ddiddordeb" yn y cais gerbron fel bod y Corwm angenrheidiol yn bresennol.

Mae yr un rheolau yn perthyn i'r pwyllgor yma a phwyllgorau eraill y Cyngor

**MATERION ARIANNOL**

Mabwysiadwyd Rheolau Ariannol gan y Cyngor yn eu cyfarfod Tachwedd 14eg 2007
Cedwir y rheolau dan ystyriaeth pan yn gwneud penderfyniadau ar wariant.

Cymeradwywyd yr Asesiad Risg ar Faterion Ariannol Y Cyngor yng nghyfarfod Chwefror 11eg 2009(i'w adolygu'n flynyddol)

Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Ariannol i'r Cynghorwyr yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai.

Cwblhëir y Ffurflen Flynyddol a'i chyflwyno i'r Cynghorwyr i'w chymeradwyo, cyn gynted a bo modd, er mwyn ei danfon i'r Archwilwyr Mewnol ac Allannol o fewn yr amser penodedig.
Yn dilyn yr archwiliad fe fydd y Cyngor yn trafod ac yn gweithredu ar yr argymellion a awgrymir gan yr archwilydd.

**MYNEDIAD I'R CYHOEDD A'R WASG**

Mae cyfarfodydd y Cyngor yn agored i'r wasg ond ni chaniateir iddynt ddefnyddio offer recordio na thynnu lluniau heb yn gyntaf gael caniatad y pwyllgor.
Os oes mater cyfrinachol i'w drafod gofynni'r i'r cyhoedd a'r wasg adael y cyfarfod dros dro. Yna fe ddatgelir i'r wasg unrhyw benderfynniad a wnaed.
Pe bae aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad ar fater sydd wedi ei restru ar yr Agenda mae hawl gan y Cadeirydd i ohirio'r cyfarfod er mwyn i'r person hynny gael siarad. (Amser penodedig i gael ei benderfynnu gan y Cyngor). Nid oes gan y cyhoedd hawl i gymeryd rhan mewn trafodaeth.
Os oes aelod o'r cyhoedd yn amharu ar y cyfarfod e.e torri ar draws trafodaeth, mae'n ofynnol i'r Cadeirydd ohirio'r cyfarfod a cheisio rhesymu gyda'r sawl sy'n achosi'r anrhefn. Os yw'n methu fe fydd yn rhaid i'r person hynny adael y cyfarfod.

**SWYDD Y CLERC**

* Cadw cofnodion llawn o bob cyfarfod o'r Cyngor
* Gyrru cofnodion o'r pwyllgorau i bob Cynghorwr o fewn deg diwrnod i'r pwyllgor gael ei gynnal
* Derbyn "materion i'w trafod" gan y Cynghorwyr a'u cynnwys yn yr Agenda.
* Cwblhau'r Agenda wythnos cyn y cyfarfod a'i gyrru i'r Cynghorwyr.
* Derbyn llythyrau a dogfennau a'i dyddio.
* Danfon llythyrau a chwblhau holiaduron, yn dilyn trafodaeth, ar ran y Cyngor.
* Dod ac unrhyw fater sydd angen sylw brys i sylw'r Cadeirydd.
* Os oes Cais Cynllunio angen ei drafod cyn y cyfarfod llawn nesaf rhaid cysylltu a'r Cadeirydd a threfnu pwyllgor brys (Cadeirydd a dau gynghorwr). Ni ddylai'r Cadeirydd na'r un o'r Cynghorwyr a benodir fod yn "Dangos Diddordeb" yn y cais dan sylw.
* Derbyn ffurflen "Datganiad Derbyn Swydd" gan gynghorwyr yn dilyn etholiad ac hefyd gynghorwyr a gyf-etholir i seddi gwag. Cyflwyno copi o'r Rheolau Sefydlog a'r Cod Ymddygiad iddynt os nad ydynt wedi bod yn gynghorwyr yn y gorffennol.
* Cofnodi enw unrhyw gynghorwr sydd yn "Dangos Diddordeb" mewn eitem ar yr Agenda a chadw cofrestr.
* Dod ac anfonnebau i sylw'r pwyllgor fel y gellir eu talu.
* Cwblhau'r manylion ar sieciau. Wedi i'r ddau gynghorwr a etholwyd gadarnhau fod y manylion yn gywir gofynni'r iddynt lofnodi'r sieciau a'r gwrthddalen.
* Archwilio datganiad y Banc yn fisol a rhoi "Cysoni'r Banc" ar Agenda'r Cyngor bob cwarter blwyddyn. Cadw cofrestr.
* Cadw cofnod llawn yn ddyddiol o dderbyniadau a gwariant yn y llyfr cyfrifon
* Cwblhau'r Adroddiad Blynyddol Ariannol i'r Cynghorwyr a'r Archwilwyr.